# **Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu, Llifogydd ac Erydu Arfordirol**

Cwestiynau Cyffredin

Mawrth 2026

| Cwestiwn / Mater a Godwyd | Ateb |
|---|---|
| **Egwyddorion Allweddol** | |
| Beth yw'r ddogfen hon? | Lluniwyd y ddogfen hon i ategu TAN15: Datblygu, Llifogydd ac Erydu Arfordirol. Mae'n rhoi atebion i lawer o gwestiynau a ofynnwyd i Lywodraeth Cymru yn y cyfnod cyn ac ar ôl diwygio a chyhoeddi'r ddogfen ar 31 Mawrth 2025. |
| Beth yw statws y ddogfen hon? | Cyhoeddir y ddogfen hon i ddibenion gwybodaeth yn unig. Mae'n adlewyrchu TAN15 ac nid yw'n cyflwyno unrhyw ofynion newydd. Cynghorir darllenwyr i adolygu TAN15 yn ei gyfanrwydd ochr yn ochr â pholisïau cynllunio cenedlaethol eraill wrth wneud penderfyniadau ynghylch datblygiadau newydd a pherygl llifogydd. |
| Beth yw egwyddorion allweddol TAN15? | Mae TAN15 yn ceisio taro cydbwysedd rhwng caniatáu i gymunedau newid ac adfywio a rhoi perygl llifogydd yn uchel ar yr agenda. Drwy ddull sy'n seiliedig ar risg gan ddefnyddio'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio, mae'n ceisio pwyso a mesur tebygolrwydd llifogydd a bregusrwydd datblygiadau. Po uchaf yw'r tebygolrwydd o lifogydd a pho fwyaf y bregusrwydd, y mwyaf cyfyngol fydd y polisi. |
| Pryd ddaeth y fersiwn wedi'i ddiweddaru o TAN15 i rym? | Daeth y TAN15 wedi'i ddiweddaru i rym o 31 Mawrth 2025. |
| Beth yw'r Cyfnod Pontio? | Dylid penderfynu ynghylch ceisiadau a ddilyswyd cyn 31 Mawrth 2025 ac unrhyw apeliadau dilynol o dan y TAN15 (2004) blaenorol. Mae hyn er mwyn caniatáu cyfnod o ras a phenderfyniad yn erbyn y fframwaith polisi a oedd mewn grym ar yr adeg pan gawsant eu cofrestru. |
| Pa agweddau allweddol sydd wedi newid o fersiwn 2021 o'r TAN yr ymgynghorwyd arni? | • Cynyddu'r pwyslais ar Gynlluniau Datblygu Lleol (CDLlau) wrth asesu risg a nodi mesurau lliniaru llifogydd.<br>• Yn gwahaniaethu rhwng tir glas a thir llwyd gyda mwy o hyblygrwydd ar gyfer adfywio mewn gwahanol Barthau lle mae hynny'n cefnogi strategaeth CDLl neu gynlluniau adfywio.<br>• Mwy o hyblygrwydd i Awdurdodau Cynllunio Lleol wneud penderfyniadau deallus gan ystyried tystiolaeth leol ac ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol.<br>• Cyfarwyddyd Hysbysu newydd i ganiatáu i Weinidogion Cymru gael golwg ar gynigion datblygu newydd bregus iawn ym mharth llifogydd 3 (Afon a Môr) y mae Awdurdodau Cynllunio Lleol yn bwriadu eu cymeradwyo. |

| | |
|---|---|
| Pa agweddau allweddol sy'n parhau heb eu newid o fersiwn 2021 o'r TAN yr ymgynghorwyd arni? | • Mae'r TAN yn dal i fod yn seiliedig ar y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio sy'n nodi parthau perygl llifogydd.<br>• Mae'r TAN yn dal i gynnwys ystyriaethau bregusrwydd ar gyfer gwahanol fathau o ddatblygiad, yn amrywio rhwng rhai llai bregus i rai hynod fregus.<br>• Mae'r TAN yn dal i fod yn seiliedig ar risg gan geisio cyfyngu ar amlygiad y datblygiadau newydd mwyaf bregus i risg mewn ardaloedd â'r risg fwyaf.<br>• Mae'r TAN yn dal i fynnu tystiolaeth leol - drwy Asesiadau Canlyniadau Llifogydd Strategol i ategu CDLlau ac Asesiadau Canlyniadau Llifogydd ar gyfer ceisiadau unigol. |
| Mae'r hyblygrwydd cynyddol yn y TAN wedi creu mwy o amwysedd i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau wrth ystyried a yw perygl llifogydd yn dderbyniol. | Mae TAN15 wedi cael ei ddiwygio'n sylweddol ar ôl dau ymgynghoriad cyhoeddus ar wahân. Ystyriwyd yr adborth o'r ymgyngoriadau hyn a gwnaed addasiadau i TAN15 i roi hyblygrwydd priodol ar gyfer prosiectau adfywio gan barhau i gydnabod y perygl uwch o lifogydd yn sgil y newid yn yr hinsawdd.<br><br>TAN15 yw'r man cychwyn ar gyfer perygl llifogydd ac mae'n amlinellu'r camau y dylid eu cymryd wrth ystyried datblygu mewn gwahanol Barthau Llifogydd. Er bod bwriad polisi cynllunio cenedlaethol yn glir, ni all fynd i'r afael â phob sefyllfa dan haul. Er y gellir mapio a chyflwyno risgiau ar sail genedlaethol, un o egwyddorion craidd y TAN yw mai yn lleol y ceir y ddealltwriaeth o natur y risgiau hynny. Gan hynny, mae'n rhaid i asesiad o berygl llifogydd gael ei lywio gan dystiolaeth leol gadarn, a mater i awdurdodau cynllunio yw lefel y dystiolaeth honno, gan ystyried amgylchiadau lleol a thrwy ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol. Rhaid i benderfyniadau ynghylch neilltuo a chymeradwyo datblygiad fod yn seiliedig ar y ffaith bod y perygl llifogydd yn dderbyniol ar hyd ei oes.<br><br>Mae Adran 10 yn nodi gofynion ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch cynlluniau datblygu a cheisiadau cynllunio gan ystyried parthau'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio, bregusrwydd a'r natur y datblygiad. Mae Llywodraeth Cymru wedi paratoi Coed Penderfynu fel canllaw pellach i'w gweithredu - gweler Atodiad 1 a 2.<br><br>Mae Adran 5 yn darparu gofynion a chanllawiau sy'n gysylltiedig ag Asesiadau Strategol o Ganlyniadau Llifogydd. Mae'n rhaid cynnal y rhain ar gyfer yr holl ffynonellau perygl llifogydd |

| | |
|---|---|
| | i ddarparu tystiolaeth yn sail ar gyfer polisïau a'r safleoedd a ddewisir mewn Cynlluniau Datblygu.<br><br>Mae Adran 6 yn darparu gofynion a chanllawiau sy'n gysylltiedig ag Asesiadau Canlyniadau Llifogydd ar gyfer pob ffynhonnell o berygl llifogydd. Mae'n ofynnol cyflwyno Asesiadau Canlyniadau Llifogydd i gyd-fynd â cheisiadau cynllunio ym Mharthau 2, 3 a Pharthau Amddiffynedig sy'n gymesur â natur a graddfa'r cynnig.<br><br>Mae Adran 11 yn berthnasol i bob math o lifogydd gan ddarparu meini prawf derbynioldeb ar gyfer Asesiadau Strategol o Ganlyniadau Llifogydd ac Asesiadau Canlyniadau Llifogydd, gan gynnwys trothwyon amlder digwyddiadau llifogydd, amodau goddefadwy a matrics perygl llifogydd. |
| **Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio** | |
| Pa mor aml mae'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn cael ei ddiweddaru? | Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn diweddaru'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio bob 6 mis (Mai a Thachwedd) i adlewyrchu newidiadau lleol neu safle-benodol i raddau llifogydd. Bydd unrhyw newidiadau ar raddfa leol yn unig, yn seiliedig ar wybodaeth model newydd. Gall diweddariadau arwain at ymestyn, lleihau neu ailddiffinio parthau llifogydd.<br><br>Fel ffordd bellach o gynnal cywirdeb y map, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn adolygu Parthau Amddiffynedig presennol TAN15 bob 2-3 blynedd (llinell sylfaen o Fai 2025). Os canfyddir bod safon yr amddiffyniad a ddarperir gan amddiffynfeydd wedi gostwng islaw'r trothwy gofynnol, bydd angen dileu'r Parth Amddiffynedig ac ailddosbarthu'r ardaloedd yr effeithir arnynt fel Parth Llifogydd 2 neu 3. Ni fydd Parthau Amddiffynedig TAN15 yn cael eu dileu fel rhan o'r diweddariadau 6 misol.  Fodd bynnag, efallai y gwneir mân newidiadau mireinio i Barthau Amddiffynedig TAN15 presennol, i gyd-fynd â'r wybodaeth ddiweddaraf am barthau llifogydd neu amddiffynfeydd llifogydd.<br><br>Mae CNC hefyd yn rheoli'r broses herio mapiau llifogydd lle bydd trydydd partïon yn ceisio newid yr Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio. Yn sgil heriau llwyddiannus, bydd y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn cael ei ddiweddaru ar y cyfle nesaf posib. Ar ôl i CNC dderbyn yr her i'r |

| | |
|---|---|
| | map, bydd hynny'n datblygu'n ystyriaeth o bwys i benderfynwyr, ac yn dod i rym o'r adeg pan fydd<br>CNC yn ei derbyn yr her.<br><br>Sylwch mai'r lwfansau newid hinsawdd a ddefnyddir yn y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yw'r rhai a oedd ar gael wrth iddo gael ei ddiweddaru. Dylai unrhyw Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd neu Asesiadau Canlyniadau Llifogydd gyfeirio at ganllawiau diweddaraf Llywodraeth Cymru ar lwfansau newid hinsawdd i ddibenion cynllunio Lwfansau newid hinsawdd ac asesiadau o ganlyniadau llifogydd \| LLYW.CYMRU |
| Beth yw'r meini prawf i fodloni'r diffiniad o Barth Amddiffynedig TAN15? | Mae'r TAN yn nodi'r meini prawf gofynnol er mwyn i ased perygl llifogydd fodloni'r diffiniad o Barth Amddiffynedig TAN15.<br><br>Mae Parthau Amddiffynedig TAN15 yn dangos ardaloedd sy'n elwa ar amddiffynfeydd llifogydd a reolir ac a gynhelir gan yr Awdurdod Rheoli Risg gyda'r Safon Amddiffyn ofynnol ganlynol:<br>• 1 mewn 100 mlynedd (heddiw) ar gyfer afonydd<br>• 1 mewn 200 mlynedd (heddiw) ar gyfer y môr<br><br>Rhaid i amddiffynfeydd rhag llifogydd a adeiladwyd o 2016 ymlaen gynnwys lwfans ar gyfer newid hinsawdd fel rhan o 'safon amddiffyn' eu dyluniad er mwyn bodloni meini prawf parth amddiffynedig TAN15. Mae'n annhebygol y bydd amddiffynfeydd yn rhoi cyfrif am newid yn yr hinsawdd dros oes gyfan y datblygiad. Dilynir dull ymaddasu a reolir yn achos cyllid y Llywodraeth ar gyfer amddiffynfeydd newydd, ac oherwydd hynny, hyd yn oed pan fydd amddifynfeydd newydd yn cynnwys lwfans ar gyfer y newid hinsawdd, ni fydd hynny ond am gyfnod o oddeutu 30 mlynedd.<br><br>Nid oes rhaid i amddiffynfeydd a adeiladwyd cyn 2016 gynnwys newid hinsawdd i fodloni meini prawf Parth Amddiffynedig TAN15. Fodd bynnag, cânt eu cydnabod yn y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio gan eu bod yn cynnig safon amddiffyn dda ar hyn o bryd. |

| | |
|---|---|
| | Ni ddylid ystyried Parthau Amddiffynedig TAN15 fel rhagdybiaeth o blaid datblygu. Maent yn dangos ardaloedd lle mae amddiffynfeydd a reolir ac a gynhelir gan yr awdurdod rheoli risg yn cynnig lefel dda o amddiffyniad ar hyn o bryd.<br><br>Maent yn galluogi cynnal Asesiad Canlyniadau Llifogydd er mwyn canfod a all datblygiadau fod yn ddiogel nawr ac yn y dyfodol. Fel arall, byddai'r ardaloedd hyn yn cael eu mapio fel parth 2 neu 3 a allai gyfyngu ar y math o ddatblygiad y gellid ei ystyried. |
| **Categorïau Bregusrwydd Datblygiadau** | |
| Nid yw rhai mathau o ddatblygiad wedi'u diffinio o fewn Ffigur 4 – Categorïau Bregusrwydd Datblygiadau. | Nid yw'r rhestr yn Ffigur 4 yn gynhwysfawr, felly dylai penderfynwyr gymhwyso barn broffesiynol wrth ystyried categorïau datblygu nad ydynt wedi'u rhestru'n benodol, ar sail y risgiau a achosir i fywydau ac i fywoliaethau os ceir llifogydd. Fodd bynnag, y rhestr yw'r sail ar gyfer y math o ddatblygiad dan sylw yn y Cyfarwyddyd Hysbysu. |
| Nid yw TAN15 yn diffinio'r hyn a ystyrir yn ddatblygiad bach ac yn ddatblygiad mawr. | Ceir cyfeiriad at ddatblygiadau bach a mawr ym Mharagraff 9.6 a 9.7, gan gydnabod na fydd hi o bosib yn briodol ystyried rhai rhannau o ddatblygiad o dan un categori bregusrwydd. Cydnabyddir nad yw'r TAN yn diffinio'n benodol beth sy'n gyfystyr â datblygiad mawr neu fach. Fodd bynnag, dylai penderfynwyr gymhwyso barn broffesiynol ar yr hyn sy'n briodol ac ystyried math a maint y datblygiad, a'r perygl o lifogydd. |
| **Gweithredu gofynion TAN15 wrth greu Cynlluniau Datblygu a Gwneud Penderfyniadau Rheoli Datblygu** | |
| Sut y dylid cymhwyso trothwyon amlder digwyddiadau llifogydd ac amodau goddefadwy ar gyfer gwahanol fathau o lifogydd wrth asesu derbynioldeb canlyniadau llifogydd? | **<u>Meini prawf derbynioldeb ar gyfer canlyniadau llifogydd</u>**<br><br>Mae paragraff 11.3 – 11.6 yn darparu gofynion ac amodau mewn perthynas â derbynioldeb perygl llifogydd.<br><br>Yn sail ar gyfer ei benderfyniad cynllunio, bydd angen i'r awdurdod cynllunio ffurfio barn ynghylch derbynioldeb canlyniadau llifogydd, ac ni ddylai ond caniatáu datblygiad os yw'r datblygwr wedi dangos bod modd rheoli risgiau a chanlyniadau llifogydd.<br><br>**<u>Trothwyon Amlder Digwyddiadau Llifogydd</u>** |

| | |
|---|---|
| | Mae Ffigur 5 yn Adran 11 yn darparu safonau dylunio ar gyfer datblygiad er mwyn bod yn rhydd rhag llifogydd o afonydd a moroedd. Er y cydnabyddir nad yw Ffigur 5 yn diffinio trothwyon penodol ar gyfer llifogydd cyrsiau dŵr bach a dŵr wyneb, gellir cymhwyso trothwyon sy'n gysylltiedig â llifogydd o afonydd.<br><br>Gellir arfer mwy o hyblygrwydd wrth gymhwyso'r trothwyon yn achos ailddatblygu, newid defnydd, trawsnewid ac estyniadau, lle cyfyngir i raddau sylweddol ar y gallu i ailddylunio datblygiad. Yn yr amgylchiadau hynny, canllaw yw'r trothwyon. Os na ellir eu bodloni’n rhesymol, dylai’r awdurdod cynllunio geisio barn yr awdurdodau rheoli risg perthnasol ar y mesurau cydnerthedd a gynigir i’w helpu i ddod i benderfyniad.<br><br>**<u>Amodau Goddefadwy mewn Digwyddiad Llifogydd</u>**<br><br>Mae Ffigur 6 isod yn dangos yr amodau dyfnder a chyflymder llifogydd goddefadwy ar gyfer datblygiadau bregus iawn a llai bregus yn seiliedig ar eu hasesu yn erbyn y digwyddiad llifogydd eithafol 0.1%, gan gynnwys  lwfans ar gyfer newid hinsawdd.     . Mae terfynau goddefadwy yn berthnasol i gynigion newydd ac ailddatblygu.<br><br>Mewn rhai achosion, yn amodol ar amgylchiadau sy'n ymwneud â'r safle penodol, gall yr awdurdod cynllunio lleol ystyried ei bod hi'n briodol cymhwyso  rhywfaint o hyblygrwydd i amodau goddefadwy, a dylai geisio barn yr awdurdodau rheoli risg perthnasol i'w helpu i ddod i benderfyniad. Rhaid i benderfyniadau ynghylch neilltuo a chymeradwyo datblygiadau fod yn seiliedig ar y ffaith bod y perygl llifogydd yn dderbyniol.<br><br>Gall y matrics perygl llifogydd yn Ffigur 7 helpu awdurdodau cynllunio i asesu pa mor beryglus y gall digwyddiad llifogydd fod i wahanol bobl. Gellir defnyddio'r matrics i asesu'r lefelau perygl y tu mewn a'r tu allan i adeiladau sydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd, drwy blotio'r dyfnderoedd a chyflymderau dŵr disgwyliedig yn ystod y digwyddiad llifogydd. |

| | |
|---|---|
| | Dylid nodi y gall awdurdodau rheoli risg roi adborth ffeithiol ar fesurau gwrthsefyll perthnasol a gynigir, ac a ellir bodloni'r trothwyon amlder di-lifogydd a'r amodau goddefadwy yn seiliedig ar y dystiolaeth a gyflwynwyd. Fodd bynnag, cyfrifoldeb yr Awdurdod Cynllunio Lleol yw penderfynu ynghylch neilltuo a chymeradwyo datblygiad a rhaid gwneud hynny ar y sail bod y perygl o lifogydd yn dderbyniol ar hyd ei oes. |
| Pa asesiad o risg sydd ei angen ar gyfer cyrsiau dŵr bach a pherygl llifogydd dŵr wyneb? | Mae TAN15 yn cyflwyno cyngor manylach ynghylch perygl llifogydd dŵr wyneb a chyrsiau dŵr bach. Mae hyn mewn ymateb i adborth ymgynghori ac oherwydd y pwysigrwydd cynyddol a roddir i asesu'r math hwn o berygl llifogydd. Er y gellir mapio a chyflwyno risgiau ar sail genedlaethol, un o egwyddorion craidd y TAN yw mai yn lleol y ceir y ddealltwriaeth o natur y risgiau hynny. Dylid ystyried perygl llifogydd dŵr wyneb mewn polisïau cynllunio lleol, ar sail tystiolaeth o Asesiadau Strategol o Ganlyniadau Llifogydd / Asesiadau Canlyniadau Llifogydd a safbwyntiau arbenigwyr technegol, gan gynnwys yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol. Mae'r dull hwn yn rhoi'r hyblygrwydd i awdurdodau cynllunio allu rhoi ystyriaeth briodol i berygl llifogydd dŵr wyneb yn eu hardaloedd.<br><br>Mae Asesiad Canlyniadau Llifogydd yn ofynnol ar gyfer unrhyw gynnig ar gyfer datblygiad sydd wedi'i leoli'n rhannol neu'n gyfan gwbl ym Mharthau Llifogydd 2 a 3 – Dŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach. Gall awdurdodau lleol arfer rhywfaint o ddisgresiwn yn achos ceisiadau gan ddeiliaid tai lle y ceir llai o risg o bosibl oherwydd natur y datblygiad arfaethedig a dylai'r gofynion fod yn gymesur â'r cynnig ar gyfer datblygiad.<br><br>Mae Adran 5, 6 ac 11 yn rhoi canllawiau ar Asesiadau Strategol o Ganlyniadau Llifogydd ac Asesiadau Canlyniadau Llifogydd fel bo modd cynnal asesiad llawn o ganlyniadau llifogydd yn sail ar gyfer penderfyniadau. Rhaid i benderfyniadau ynghylch neilltuo a chymeradwyo datblygiadau fod yn seiliedig ar y ffaith bod y perygl llifogydd yn dderbyniol. |
| A yw Parth Amddiffynedig yn diystyru gofynion Parth Llifogydd 2 a 3? | Ydy, os yw'r datblygiad wedi'i leoli mewn Parth Amddiffynedig ar gyfer ffynhonnell llifogydd, mae'r gofynion ar gyfer y parth hwn yn berthnasol |
| Os caiff ei nodi fel Parth Amddiffynedig ar gyfer un ffynhonnell llifogydd ond ddim y llall, a oes angen ei asesu o dan ofynion Parth Llifogydd 1, 2 neu 3? | Oes, os na chaiff ffynhonnell llifogydd ei nodi o fewn y Parth Amddiffynedig, bydd gofynion Parth Llifogydd 1, 2 neu 3 yn berthnasol. |

| | |
|---|---|
| Sut y caiff y perygl llifogydd ei asesu pan fydd safleoedd wedi'u lleoli mewn dau neu fwy o barthau llifogydd. | Pan fydd safle wedi'i gynnwys o fewn dau neu fwy o barthau llifogydd, rhaid i'r awdurdod cynllunio asesu'r cynnig, gan ystyried pob un o'i ddefnyddiau tir arfaethedig, yn erbyn pob un o'r parthau llifogydd y mae'n berthnasol iddynt, yn unol â gofynion meini prawf y Nodyn Cyngor Technegol. |
| Sut y dylid asesu perygl llifogydd pan fydd datblygiad wedi'i leoli ym Mharth Llifogydd 1? | Mae'r TAN yn gosod gofynion ar gyfer asesu perygl llifogydd ar gyfer datblygiadau sydd wedi'u lleoli ym Mharth 1. Ystyrir mai Parth 1 yw'r parth â'r lleiaf o berygl o lifogydd. Serch hynny, er y gellir mapio a chyflwyno risgiau ar sail genedlaethol, un o egwyddorion craidd y TAN yw mai yn lleol y ceir y ddealltwriaeth o natur y risgiau hynny. Dylid cynnal asesiad o raddau unrhyw lifogydd lleol a gofnodwyd ym mhob ardal er mwyn sicrhau y caiff unrhyw berygl llifogydd lleol ei asesu. |
| A all cynlluniau ailddatblygu y mae Awdurdodau Lleol yn dymuno eu cefnogi ym Mharthau 2 a 3, fynd rhagddynt cyn mabwysiadu CDLl? | Mewn amgylchiadau o'r fath, rhaid i Awdurdodau Lleol ystyried y perygl llifogydd sy'n gysylltiedig â'r ailddatblygiad a nodi mesurau lliniaru llifogydd priodol a fyddai'n darparu digon o amddiffyniad i'w symud i'r Parth Amddiffynedig. Wrth wneud hyn rhaid iddynt dderbyn nad yw amddiffynfeydd llifogydd yn rhoi sicrwydd o amddiffyniad rhag llifogydd, bod yn rhaid cynnal asesiad llawn o'r risgiau sy'n gysylltiedig â gwaith ailddatblygu arfaethedig, a bod y risgiau hynny'n dderbyniol i'r sawl sy'n penderfynu.<br><br>Dylai mesurau lliniaru llifogydd gael eu darparu cyn, neu ar yr un pryd â'r cynigion ailddatblygu. Mae awdurdodau lleol sy'n caniatáu cynlluniau cyn bod y seilwaith lliniaru llifogydd yn ei le wedi penderfynu bod y perygl o lifogydd yn dderbyniol ac y byddant yn atebol yn gyhoeddus am eu penderfyniadau. |
| A oes angen asesu Datblygiad Llai Bregus o fewn Parth Amddiffynedig yn erbyn ystyriaethau derbynioldeb Adran 11? | Oes, mae'r ystyriaethau derbynioldeb, gan gynnwys y trothwyon amlder a'r amodau goddefadwy yn Adran 11 yn berthnasol i Ddatblygiadau Bregus Iawn a Datblygiadau Llai Bregus yn y Parth Amddiffynedig a Pharthau 2 a 3. Bydd y penderfyniad ynghylch a ddylai datblygiad fynd rhagddo ai peidio yn dibynnu ar a ellir rheoli canlyniadau llifogydd yn ddiogel, gan gynnwys ei effeithiau ar berygl llifogydd mewn mannau eraill. |
| Ym Mharth Llifogydd 2, a yw Datblygiad Llai Bregus yn briodol ar dir maes glas os nad yw wedi'i neilltuo yn y cynllun datblygu? | Ydy, mewn egwyddor, ond rhaid cyflwyno Asesiad Canlyniadau Llifogydd i gyd-fynd â'r cais sy'n rhoi disgrifiad clir o'r perygl llifogydd. Rhaid i benderfyniadau ynghylch neilltuo a |

| | |
|---|---|
| | chymeradwyo datblygiad fod yn seiliedig ar y ffaith bod y perygl llifogydd yn dderbyniol drwy gydol ei oes. |
| A ganiateir cynigion ailddatblygu â defnyddiau preswyl ar y llawr gwaelod ym Mharthau 2 a 3 os gellir dangos bod y safle yn rhydd rhag llifogydd? | Mae'r TAN yn cadarnhau na ddylid cael datblygiadau preswyl ar y llawr gwaelod ym Mharth 2 a 3. Mae hyn oherwydd y risg i eiddo llawr gwaelod os ceir llifogydd. Pe bai llifogydd yn digwydd dros nos, gallai meddianwyr yr eiddo ar y llawr gwaelod wynebu'r risg bod dŵr yn dod i mewn gydag ond ychydig o rybudd, os o gwbl, a heb unrhyw ffordd o ddianc.<br><br>Er bod bwriad polisi cynllunio cenedlaethol yn glir, ni all fynd i'r afael â phob sefyllfa dan haul. Er y gellir mapio a chyflwyno risgiau ar sail genedlaethol, un o egwyddorion craidd y TAN yw mai yn lleol y ceir y ddealltwriaeth o natur y risgiau hynny. Felly rhaid i asesiad o berygl llifogydd fod yn seiliedig ar dystiolaeth leol gadarn ac ymgysylltiad â rhanddeiliaid allweddol. Rhaid i benderfyniadau ynghylch neilltuo a chymeradwyo datblygiad fod yn seiliedig ar y ffaith bod y perygl llifogydd yn dderbyniol drwy gydol ei oes. |
| **Canlyniadau Llifogydd** | |
| A oes angen Asesiadau Strategol o Ganlyniadau Llifogydd / Asesiadau Canlyniadau Llifogydd i gefnogi dyraniadau'r CDLl? | Mae Asesiad Strategol a chynllun seilwaith yn hanfodol er mwyn creu CDLl cadarn a chyflawnadwy. Er nad yw Asesiad Canlyniadau Llifogydd yn ofynnol yng ngham y CDLl, bydd angen dealltwriaeth ddigonol o'r peryglon a'r canlyniadau llifogydd posibl, a'r mesurau lliniaru angenrheidiol, er mwyn dangos y gallu i gyflenwi'r safle dros gyfnod y cynllun. Gall Awdurdodau Cynllunio Lleol felly ystyried bod angen Asesiad Canlyniadau Llifogydd ar gyfer dyraniadau unigol fel bo modd cynnal asesiad llawn o berygl llifogydd a dangos y gallu i gyflenwi wrth Archwilio'r CDLl. |
| A oes angen Asesiadau Canlyniadau Llifogydd ar gyfer datblygiadau mewn Parthau Amddiffynedig? | Oes, mae angen ystyried yn ofalus cyn neilltuo safleoedd ar gyfer datblygiadau newydd mewn Parthau Amddiffynedig, oherwydd gall methiant amddiffynfeydd rhag llifogydd arwain at lifogydd trychinebus yn yr ardaloedd y tu ôl i'r amddiffynfeydd hynny. Nid yw presenoldeb amddiffynfeydd ffurfiol rhag llifogydd yn gwarantu y bydd tir yn y Parth Amddiffynedig yn parhau i fod yn rhydd rhag llifogydd yn y dyfodol, gan mai dim ond lleihau'r perygl llifogydd y maent yn ei wneud. Mae'n bosibl i ddŵr godi'n uwch na'r amddiffynfeydd mwyaf modern rhag llifogydd hyd yn oed, a/neu eu torri, gan arwain at ddigwyddiadau llifogydd sylweddol. Lefel yr amddiffyniad rhag llifogydd a ddarperir gan amddiffynfeydd sy'n bodloni meini prawf Parth Amddiffynedig TAN15 yw'r amcangyfrif mwyaf cywir sydd ar |

| | |
|---|---|
| | gael, yn seiliedig ar y data diweddaraf. Fodd bynnag, gallai'r data hyn fod yn flynyddoedd oed. Gan hynny, mae angen asesu lefel yr amddiffyniad yn rhan o'r Asesiad Canlyniadau Llifogydd. Bydd angen i'r Asesiad Canlyniadau Llifogydd hefyd ystyried y lwfans newid hinsawdd diweddaraf dros oes y datblygiad. |
| A all Awdurdodau Cynllunio Lleol ofyn am Asesiadau Canlyniadau Llifogydd ar unrhyw sail arall nad yw wedi'i nodi yn y TAN? | Un o egwyddorion craidd y TAN yw bod y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn nodi ac yn mapio'r risgiau ar sail genedlaethol. Nid yw'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio ychwaith yn mapio risgiau fel tonnau'n codi'n uwch nag amddiffynfeydd, llifogydd yn y gorffennol, a risg uwch yn sgil rhwystrau a dŵr yn codi'n uwch nag amddiffynfeydd neu'n torri drwyddynt.<br><br>Gan hynny, rhaid seilio asesiad llawn o berygl llifogydd ar dystiolaeth leol gadarn, a mater i awdurdodau cynllunio yw lefel y dystiolaeth honno, gan ystyried amgylchiadau lleol a thrwy ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol. Rhaid i benderfyniadau awdurdodau cynllunio ynghylch neilltuo tir a chymeradwyo datblygiadau fod yn seiliedig ar y ffaith bod y perygl llifogydd yn dderbyniol. |
| Pa feini prawf derbynioldeb TAN15 y mae angen eu hasesu i ystyried y perygl os bydd dŵr yn codi'n uwch na'r amddiffynfeydd neu'n eu torri neu os bydd rhwystrau? | Mae TAN15 yn tynnu sylw at y ffaith bod angen asesu'r risgiau os bydd dŵr yn codi'n uwch na'r mesurau amddiffyn, gan gynnwys amddiffynfeydd rhag llifogydd, yn torri drwyddynt neu os bydd rhwystrau. Lle bo'n briodol, dylai Asesiadau Canlyniadau Llifogydd ddangos, os bydd dŵr yn codi'n uwch na'r mesurau amddiffyn, yn torri drwyddynt, neu os bydd rhwystrau, y bydd modd rheoli canlyniadau llifogydd i raddau derbyniol. Dylid gofyn i CNC am gyngor ynglŷn â senarios torri a rhwystro i'w hasesu ar gyfer amddiffynfeydd rhag llifogydd ac adeileddau a all ddylanwadu ar lifogydd yn lleol. Os bydd angen asesiad ar gyfer torri amddiffynfa neu rwystro adeiledd, dylid ystyried mai hwn yw'r 'digwyddiad dylunio'.<br><br>Mae gan CNC ganllawiau (GN043) ar sefyllfaoedd lle bydd dŵr yn codi'n uwch nag amddiffynfeydd neu'n eu torri neu os bydd rhwystrau, a sut y dylid cynnal asesiad o'r risgiau hynny. |
| A ddylai Asesiadau Canlyniadau Llifogydd gynnwys asesiad o symudiadau tonnau, ac ar gyfer beth y dylid defnyddio'r wybodaeth hon? | Dylid ystyried y risg a achosir gan donnau eithafol sy'n torri dros dir yn ystod stormydd dwys. Gall symudiadau tonnau achosi risg uwch a sylweddol i ddatblygiad. Mae angen i |

| | |
|---|---|
| | unrhyw 'raddau llifogydd a gofnodwyd' o'r natur hon lywio asesiad o berygl llifogydd a phenderfyniadau. |
| A fydd seilwaith newydd cyhoeddus i amddiffyn rhag llifogydd yn cael ei gynllunio i ystyried datblygiadau yn y dyfodol? | Bwriedir i amddiffynfeydd newydd rhag llifogydd a ariennir o'r pwrs cyhoeddus amddiffyn cymunedau sy'n bodoli eisoes. Byddai angen ariannu mesurau lliniaru llifogydd, gan gynnwys gwella amddiffynfeydd/adeiladu amddiffynfeydd newydd ar gyfer datblygiadau newydd, drwy gyfraniadau preifat. Mae 10.6 yn cyfleu'n glir na fyddai unrhyw ddisgwyl i LlC na chyrff eraill allu ariannu'r holl gynigion, neu fod yn barod i wneud hynny.<br><br>Mae'n annhebygol y bydd amddiffynfeydd preifat rhag llifogydd yn bodloni meini prawf Parth Amddiffynedig TAN15 oni chânt eu mabwysiadu'n ffurfiol gan awdurdodau rheoli risg. Dylid cytuno hefyd ar fecanweithiau ariannu er mwyn rheoli a chynnal a chadw amddiffynfa o'r fath yn y tymor hir, yn hytrach na'i hadeiladu yn unig. |
| **Yswiriant** | |
| Nid yw adrannau 2.9 a 13.3 yn ymddangos yn realistig, yn gadarn nac yn effeithiol mewn perthynas ag yswiriant. Er bod Adrannau 2.7-2.10 yn cael eu croesawu, sylwch fod eiddo wedi'i adeiladu ar ôl 2009 wedi'i hepgor yn fwriadol o Flood RE er mwyn osgoi cefnogi datblygiadau amhriodol mewn ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd. | Mae fforddiadwyedd yswiriant, a'r costau'n gysylltiedig ag ymdrin â chanlyniadau llifogydd, yn atgyfnerthu'r egwyddor gyffredinol y dylid osgoi datblygu mewn ardaloedd lle<br>bydd canlyniadau llifogydd yn annerbyniol. Mae'r TAN yn annog ymgysylltu ag yswirwyr drwy'r broses gynllunio i ganiatáu ystyriaeth ar gyfer premiymau uwch neu risgiau i ddatblygiad na ellir ei yswirio. Gall nodweddion dylunio effeithiol o fewn datblygiadau ddangos bod y perygl o lifogydd yn cael ei leihau'n weithredol, gan helpu i ostwng premiymau yswiriant yn ystod y gwaith adeiladu, ac ar gyfer y rhai a fydd yn meddiannu datblygiadau newydd yn y pen draw. |
| Mae angen dull strategol o fonitro gosodiad ac effeithiolrwydd nodweddion dylunio i ddangos bod y perygl o lifogydd yn cael ei leihau'n weithredol. | Mae'r dull o fonitro gweithrediad TAN15 dan ystyriaeth, gan gynnwys effeithiolrwydd mesurau lliniaru a nodweddion dylunio ar ôl y gwaith adeiladu. |
| **Materion Eraill** | |
| Pryd fydd canllawiau technegol eraill sy'n cefnogi'r TAN yn cael eu diweddaru? | Ochr yn ochr â chyhoeddi'r Cwestiynau Cyffredin hyn, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi diweddariad i'r Lwfansau newid hinsawdd ac asesiadau o ganlyniadau llifogydd \| |

| | |
|---|---|
| | LLYW.CYMRU a'r Rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol: addasu i newid yn yr hinsawdd \| LLYW.CYMRU gan adlewyrchu'r rhagolygon newid hinsawdd diweddaraf.<br><br>Sylwch y dylid defnyddio ffigurau'r amcanestyniadau newid hinsawdd diweddaraf sydd wedi'u cynnwys yn y dogfennau hyn wrth lunio Asesiadau Strategol o Ganlyniadau Llifogydd / Asesiadau Canlyniadau Llifogydd. |
| Pwy ddylid cysylltu â nhw i drafod datblygiadau arfaethedig a gofynion TAN15 ymhellach? | Fel y penderfynwr ym mhrosesau'r CDLl a cheisiadau cynllunio, dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau am safle penodol neu'n gysylltiedig â pholisi i sylw'r Awdurdod Cynllunio Lleol.<br><br>Dylid cyfeirio unrhyw faterion technegol sy'n ymwneud â pherygl llifogydd neu'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio i sylw CNC. |

# Atodiad 1 – Coeden Penderfynu Cynlluniau Datblygu

**Lleoliad y Datblygiad a Pharth y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio**

- **Parth Llifogydd 1**
  - Blaenoriaethu pob math o ddatblygiad

    Rhaid i safleoedd a neilltuir gael eu cyfiawnhau'n llawn a dylent gefnogi gweithredu'r strategaeth
- **Parth Llifogydd 2**
  - Ar yr amod bod Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd wedi canfod bod lefel y risg yn dderbyniol, gall y Cynllun neilltuo safleoedd ar gyfer datblygiadau newydd ac i'w hailddatblygu, waeth pa mor fregus yr ydynt, os oes eu hangen i:

    - Weithredu strategaeth y Cynllun, i adfywio neu adfywio aneddiadau presennol neu gyflawni amcanion economaidd neu amgylcheddol allweddol.

    - Neu fynd i'r afael a gofynion diogelwch gwladol, diogelu ffynonellau ynni, iechyd y cyhoedd, lliniaru'r newid hinsawdd.
- **Parth Llifogydd 3**
  - **Maes Glas / Datblygiad Newydd**
    - **Datblygiad Bregus Iawn**
      - Ni cheir neilltuo tir
    - **Datblygiad Bregusrwydd Isel**
      - Dim ond neilltuo safleoedd mewn amgylchiadau eithriadol (h.y. ymdrin â gofynion diogelwch gwladol, diogelu ffynonellau ynni, iechyd y cyhoedd, lliniaru'r newid hinsawdd, ac na ellir eu lleoli yn unman arall).
  - **Tir Llwyd / Ailddatblygu**
    - Dim ond neilltuo safleoedd mewn amgylchiadau eithriadol, lle bo hynny'n hanfodol i strategaeth y cynllun (neu er mwyn ymdrin â gofynion diogelwch gwladol, diogelu ffynonellau ynni, iechyd y cyhoedd, lliniaru'r newid hinsawdd).

      Ni ddylid neilltuo ar gyfer datblygiadau bregus iawn onid oes ymrwymiad clir i amddiffyn drwy fesurau lliniaru llifogydd, fel y nodir yn y Cynllun Seilwaith
- **Parth Amddiffynedig**
  - - - Rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol ddeall ansawdd a chyflwr yr amddiffynfeydd presennol rhag llifogydd yn llawn, yn ogystal â lefel yr amddiffyniad a gynigir ganddynt nawr ac yn y dyfodol

    - Mae'n ofynnol cael Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd llawn ac astudiaethau eraill ychwanegol os oes angen, i ddeall y tebygolrwydd o lifogydd yn yr ardal a chanlyniadau posibl hynny.

    - Rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol ddeall y risg o bob ffynhonnell

    - Ni ddylid adeiladu ar safleoedd maes glas onid oes safleoedd amgen addas yn eu disodli, sy'n amlwg yn cyfrannu at wella trefniadau rheoli llifogydd

    - Yn seiliedig ar dystiolaeth, dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol geisio blaenoriaethu ailddatblygu mewn ardaloedd lle ceir llai o berygl llifogydd

    - Osgoi dwysáu defnyddiau.


    - Dylai adeiladau newydd neu gynlluniau ailddatblygu fod yr un fath yn fras â defnyddiau presennol

    - Ystyriaeth fanwl o ddyluniadau sy'n gallu gwrthsefyll llifogydd yn bwysig - Adran 13

**Egwyddorion Allweddol**

- Hanfodol bod cynlluniau'n cydnabod y peryglon sy'n gysylltiedig â llifogydd yn llawn a bod egwyddorion y Nodyn Cyngor Technegol hwn yn cael eu defnyddio i benderfynu ar leoliad a natur cynigion datblygu newydd.
- Rhaid cynnal Asesiad Strategol o ganlyniadau Llifogydd er mwyn cyflwyno'r dystiolaeth i ategu polisïau a phrosesau dewis safleoedd.
- Os bydd yn amlwg bod perygl llifogydd yn effeithio ar y strategaeth, bydd yn rhaid i'r Cynllun gynnwys mesurau priodol i liniaru ac amddiffyn yr ardaloedd lle ceir y perygl mwyaf yn seiliedig ar yr Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd.
- Rhaid i unrhyw gynllun sy'n cynnwys polisïau neu gynigion y bydd perygl llifogydd yn effeithio arnynt gael ei ategu gan Gynllun Seilwaith sy'n ymgorffori mesurau lliniaru llifogydd priodol.
- Dylai Asesiadau Strategol o Ganlyniadau Llifogydd ganfod ffyrdd o leihau perygl llifogydd ar gyfer cymunedau sydd eisoes yn bodoli.
- Dylai awdurdodau cynllunio ddatblygu polisïau cynllunio sy'n benodol i'r ardal leol ar gyfer ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd, er mwyn gallu eu defnyddio i asesu ceisiadau.
- Gweler paragraff 9.6-9.7 am ganllawiau ar ystyried datblygiadau a chanddynt ddefnyddiau tir o fwy nag un categori bregusrwydd.
- Gweler paragraff 15.5 am ganllawiau ar safleoedd mewn dau barth llifogydd neu fwy.

## Atodiad 2 – Coeden Penderfynu Ceisiadau Cynllunio




Egwyddorion Allweddol

- Datblygiadau sy'n gydnaws â dŵr yn dderbyniol ym mhob parth llifogydd
- Parthau 2 a 3 ac Amddiffynedig- rhaid i ddatblygwyr gynnal asesiad o ganlyniadau llifogydd sy'n gymesur â natur a graddfa'r cynnig, cynnwys asesiad o Ddigwyddiadau Llifogydd a Gofnodwyd a pherygl llifogydd yn y dyfodol gan ystyried ystod o senarios newid hinsawdd, gan gynnwys amcangyfrifon pen uchaf, gan gyfeirio at ganllawiau Llywodraeth Cymru ar lwfansau newid hinsawdd.
- Rhaid i Awdurdodau Cynllunio ddeall ansawdd a chyflwr yr amddiffynfeydd presennol rhag llifogydd yn llawn, yn ogystal â lefel yr amddiffyniad a gynigir ganddynt nawr ac yn y dyfodol.
- Yn absenoldeb amddiffynfeydd rhag llifogydd neu CDLlau sydd ymhell o gael eu mabwysiadu, bydd awdurdodau cynllunio lleol sy'n caniatáu cynlluniau cyn i'r seilwaith lliniaru llifogydd gael ei roi ar waith wedi penderfynu bod y perygl llifogydd yn dderbyniol.
- Gweler paragraff 9.6-9.7 am ganllawiau ar ystyried datblygiadau a chanddynt ddefnyddiau tir o fwy nag un categori bregusrwydd.
- Gweler paragraff 15.5 am ganllawiau ar safleoedd mewn dau barth llifogydd neu fwy.
- Gweler paragraff 10.26 am ganllawiau ar asesu senarios torri / rhwystro mewn perthynas ag amddiffynfeydd neu adeileddau rhag llifogydd.
- Os na chaiff ffynhonnell llifogydd ei nodi o fewn y Parth Amddiffynedig, bydd gofynion Parth Llifogydd 1, 2 neu 3 yn berthnasol.